

Cofion

Yr ydym yn parhau i gofio yn ein gweddïau am y rhai sydd mewn anhwylder y dyddiau hyn. Anfonwn ein cofion at Gwenfyl Williams (Llanefydd) sydd wedi torri ei braich yn ddiweddar, gan hyderu y bydd yn gwella'n fuan. Parhawn i gofio hefyd am y rhai hynny sy'n wynebu, neu wedi bod yn derbyn triniaeth tymor hir yn ystod y flwyddyn. Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd, a gweddiwn am iddynt brofi daioni a chariad Duw yn eu hamgylchynu.

Arlwy Diwrnod i'r Brenin

Mae amserlen Diwrnod i'r Brenin (sef yr Ŵyl Gristnogol i'r teulu cyfan a gynhelir dydd Sadwrn, Hydref 6ed o 10.00 – 4.00 ar faes y sioe yn Llanellwedd) wedi ei threfnu. Bydd **addoliad i ddechrau ac i gloi'r dathlu** mewn dwy oedfa o fawl i'r Arglwydd yn y Neuadd Fwyd. Pregethir yn yr oedfa agoriadol gan Rhun Murphy ac yn yr ail gan John Derek Rees. Bydd Rhys Llwyd, Caernarfon a chyfeillion eraill yn gofalu am y gerddoriaeth.

Wedi'r oedfa gyntaf, bydd lluo o weithgareddau ar gyfer pawb o bob oed. Bydd dwy sesiwn **'Ribidires'** yn Neuadd Trefaldwyn **i blant ysgolion cynradd** o dan arweiniad Nigel Davies a Martyn Geraint. Testun y gweithgareddau fydd 'Y Ddafad Colledig'. Yn Neuadd Clwyd bydd gweithgareddau **ieuenctid Maes-i**. Bydd addoliad, canu, fideos, gemau a her i ieuenctid ein heglwysi. Yn y sesiwn gyntaf **'Iesu Grist'** bydd Aron Treharne, Catrin Pritchard ac Alun Tudur yn arwain. Testun yr ail sesiwn fydd **'Pam ddylwn i?'** dan arweiniad Gwilym Jeffs, Owain Llyr Evans a Gareth Wyn Jones, Wrecsam. Hefyd, bydd nifer fawr o sesiynau difyr ar gyfer yr **oedolion**. Yn eu plith bydd **'Codi'r Eglwys ar ei thraed – datblygu eglwysi'** gyda Marc Owen; **sesiwn ddyngarol** gyda Delyth Davies, Chwilog; **'2012: Nid dim ond Olympics!'** - sesiwn hanes gydag Euros Wyn Jones, Guto Prys ap Gwynfor a Densil Morgan. Cynhelir sesiwn **'Blodau Hyfryd'** gan Kevin Davies, Penarth; **'Byrstio'r Bybl'** gan Arwel Jones, Caernarfon ac Elin Maher, Casnewydd; **'Cymysgu'r Concrit'** sef ymhel â sylfeini'r ffydd gyda Rhodri Glyn a Menna Machraeth; a bydd Arfon Jones yn sôn am **wneud y defnydd gorau o'r Beibl**. Bydd hefyd sesiwn **'Anelwch a Saethwch'** (eich cwestiynau!) yng nghwmni'r tri Ysgrifennydd Cyffredinol – Peter Thomas, Meirion Morris a Geraint Tudur. Felly, diwrnod arbennig a rhywbeth at ddant pawb!

Dros amser cinio bydd adloniant a stondinau yn y Neuadd Fwyd. Dewch â phicnic hefo chi, ond bydd lluniaeth ysgafn a diodydd ar gael.

Os bydd digon o ddiddordeb, gallwn drefnu bws, neu bydd gan Rhodri le yn y car i roi lifft i bwy bynnag sy'n dymuno mynd draw yno. Cysylltwch â Rhodri neu Mair **HEDDIW** os oes gennych ddiddordeb. Croeso i bawb!

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 23^{ain} Medi 2012

Sylwch bod CAP (ar gyfer genod bl. 7-11) yn ail-gychwyn yn y Granar, Llansannan nos Lun yma am 4.30.

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da a chroeso i oedfaon y dydd. Diolchwn i Dduw am ddiwrnod newydd i gael cydaddoli a chanmol ein Harglwydd gogoneddus. Oes yna unrhyw un sydd yn debyg i'n Duw? Yr Arglwydd sydd 'Oll yn hawddgar'? Canmolwn Ef a diolchwn iddo.

Cawsom noson hyfryd o ganu clod nos Fercher hefo'r ieuenctid a Steffan Morris yn arwain. Roedd yn fraint cael noson i fwynhau codi mawl hefo'n gilydd i'r Duw sydd mor fawr ac sydd mor deilwng o'n moliant. Diolch i Steff a'r criw am ein harwain. Y mae Duw yn ein caru ac mae yn profi hynny trwy ddangos Crist i ni – rhoi llygaid i ni ei weld a chalon i ni fedru credu ynddo.

Braf oedd cael cwmni Elinor hefyd ar ôl ei hymweliad â Thaiwan. Edrychwn ymlaen at gael yr hanes yn llawn ganddi cyn hir a dymunwn fendith yr Arglwydd, ei gynhaliath a'i nerth iddi hi a Sarah yn eu gwaith o arwain Rhaglen DORCAS yn y de a'r gogledd. Adran y Chwirydd sy'n gyfrifol am ddatblygiad y cynllun sydd yn mynd i helpu gwragedd i gryfhau eu tystiolaeth a'u gwasanaeth a'u hanogaeth i'w gilydd. Mae cymaint o angen anogaeth arnom. Cefnogi ein gilydd yn ein perthynas hefo Iesu yw un o freintiau pennaf aelodau'r Eglwys.

Does yna ddim llawer o eirin gwyllt eleni ar y perthi nag afalau chwaith yn y perllannau. Does 'na ddim ffrwythau gan i ni gael gwres mor gynnar yn y flwyddyn. Daeth y blodau ond roedd yn rhy gynnar i'r pryfaid a'r gwenyn beillio'r blodau, ac yna cawsom oerni a gwlybanaeth anghyffredin i amharu ar y cyfle i beillio. Does dim modd cael ffrwyth heb i'r blodau a'r gwenyn gydweithio. Felly mae hi hefyd yn ein pererindod – mae'n rhaid i ni gyd weithio hefo'n gilydd a hefo Ysbryd Duw er mwyn dwyn ffrwyth.

Pethynas o gariad a bywyd sy'n bodoli rhwng Duw, ei Fab Iesu, a'r Ysbryd Glân; a'r berthynas fywiol yna ydi gwreiddyn, boncyff a changen, blodyn a ffrwyth y bywyd Cristnogol. "Myfi yw'r wir winwydden" meddai Crist, "a chwi yw'r canghennau" (Ioan 15). Ar wahân i Grist, ni fedrwn ni wneud dim, ond yng Nghrist y mae bendithion diderfyn. Ac yng Nghrist y mae'r unig ffrwyth sy'n para ac sydd o unrhyw werth. Cydweithio ac annog ein gilydd yw ein braint felly a gweddiwn heddiw am fendith Ysbryd Duw ar ei Air yn ein plith fel y bydd yn dwyn ffrwyth yng nghalon pob un a fydd yn ei geisio a'i wasanaethu mewn ffydd.

Aneurin

Eglwys Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams, bydd Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Llun • **CAP (Grŵp genod bl. 7-11)** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
lau • **Cyfarfod Plant** yn Llansannan am 3.15.
• **Astudiaeth Feiblaidd** yn Llanefydd am 7.30.
• **Cwrdd Chwarter** yn Eglwys Crist, Abergele am 7.00 gyda Dylan Rhys Parry, aelod ifanc o Eglwys Salem, Caernarfon yn rhannu ei brofiadau yn dilyn treulio cyfnod yn yr India ac yn Ne Affrica.
- Gwener - • **Aduniad Llanw** yng Ngholeg y Bala. Cyfle i addoli, cymdeithasu ac Sadwrn astudio gair Duw.
- Sul nesaf • O hyn allan a phan fo pum Sul yn y mis, bydd **Oedfa'r Fro yn mynd ar daith**, ac fe'i cynhelir y tro hwn **yng Nghefn Berain** am 6.00.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd y Parch Irfon Parry yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 10.30, a bydd Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn dilyn y rhan ddechreuol o'r oedfa. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- lau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch Dafydd Rees Roberts yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn dilyn y rhan ddechreuol o'r oedfa. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron **am 10.30 (sylwch ar yr amser!)** Yn dilyn yr oedfa, bydd cyfle i'r plant a'r oedolion fynd ar daith gerdded fer ac yna dod yn ôl i gae Tyn y Ffrith i gael cinio. Bydd paned ar gael yn y festri i'r rhai fydd ddim am gerdded. Cysylltwch â Marian (550491) neu Lynda (890271) HEDDIW os am docyn cinio - oedolion £8, plant £3. Bydd yr elw yn mynd tuag at Apêl Guatemala.

Cyhoeddiadau

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch Dafydd Rees Roberts yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00 gyda phlant y ddwy eglwys yn cyfarfod yn Groes.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd y Parch Ioan Davies yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.
- Sul nesaf Cynhelir Gwasanaeth Thema i'r teulu - Apêl Guatemala - yn Llanefydd am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd Oedfa'r Fro ar Daith ac yn cael ei chynnal yng Nghefn Berain am 6.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

I ddod

- **Cymdeithas Chwiorydd Peniel, Nantglyn a'r Groes** - cyfarfod cynta'r tymor nos Fawrth, Hydref 9fed.
- **Cyfarfod Chwiorydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** nos Fercher, Hydref 17eg am 7.00 yng Nghapel Mynydd Seion, Abergele yng nghwmni Elinor Owen.
- **Cyfarfod Chwiorydd Bro Aled** nos Iau, Hydref 25ain am 7:00 yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan yng nghwmni Hywel Meredydd, Tearfund fydd yn siarad am ei daith i Peru.
- **Oedfa Ddiolchgarwch** yng Nghapel Cefn Berain nos Wener, Hydref 26ain am 7.00. Gwasanaethir gan y Parch. Eifion Jones.